# Gwaelod y Garth

## Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**05.09.25**




## Croeso nôl! - Welcome back!

Am braf yw cael bod nôl! Roedd hi'n wefr arbennig iawn gweld ein plant mor hapus yn cyrraedd yr ysgol bore Mercher ac hyfryd yw eu gweld yn ôl yn yr ysgol wrth ddal lan gyda ffrindiau ac ymgysylltu'n frwdfrydig gyda chyfleoedd dysgu newydd. Fel staff, gobeithiwn eich bod i gyd wedi cael haf hyfryd iawn.

Estynnwn groeso arbennig i deuluoedd a phlant sydd yn ymuno â ni am y tro cyntaf eleni. Rydych yn ymuno â chymuned arbennig iawn a gobeithiwn eich bod yn teimlo cynhesrwydd y gymuned honno yn barod.

Mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth pwysig ar gychwyn tymor. Gofynnaf yn garedig i chi edrych isod i ganfod gwybodaeth am y materion canlynol:

- Diwrnodau Ymarfer Corff
- Taflen (newydd!) Llais y Plentyn sydd wedi eich cyrraedd heddiw
- Clybiau ar ôl ysgol
- Cais am gymorth gan y GRhA arbennig

Bydd rhestr cyflawn o ddyddiadau pwysig y tymor eich cyrraedd yn gynnar yr wythnos nesaf. Yn y cyfamser hoffwn dynnu eich sylw at ddau ddyddiad pwysig lle y gofynnwn i **bob teulu** fod yn bresennol:

- Cyfarfod â'r Athrawon Dosbarth (Dydd Mawrth 16/9 am 15:40 neu 16:10)
- Nosweithiau Agored Rhieni (cyfarfodydd unigol) ar Hydref 14 ac 15

* * * * * *

It is so nice to be back! It was a special feeling to see our children so happy arriving at school on Wednesday morning and it's equally lovely to see them back at school catching up with friends and enthusiastically engaging with new learning opportunities. As staff, we hope you all had a wonderful summer.

We extend a special welcome to families and children who are joining us for the first time this year. You are joining a very special community and we hope that you are already feeling the warmth of our community.

This Newsletter contains important information at the start of term. I kindly ask you to scroll below to read information on the following:

- Our new Pupil Voice Leaflet that has been sent to you today
- PE Days
- Reading Books
- After School Clubs
- Request for support from our wonderful PTA

A full list of important dates for the term will reach you early next week. In the meantime I would like to draw your attention to two important dates where we ask **all families** to attend:

- Meeting the Class Teachers (Tuesday 16/9 at 15:40 or 16:10)
- Parent Open Evenings (individual meetings) on October 14 and 15

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Mawrth / Tues 16/9/25**
3.40pm / 4.10pm
Pob rhiant - Cyfarfodydd Cwrdd â'r athrawon
*All parents – Meet the teacher meetings*

**24/9 - 26/9/25**
6C Llangrannog
Taith Breswyl / Residential

**14/10/25 & 15/10/25**
Nosweithiau Rhieni
Parents' Evenings

**15/10 – 17/10**
Year 6 (2E) Llangrannog
Taith Breswyl / Residential

**Gwener / Friday 24/10/25**
Diwrnod HMS
*INSET Day*

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Dydd Gwener Medi 12
Dydd Gwener Medi 26
Dydd Gwener Hydref 10

Dydd Gwener Tachwedd 14
Dydd Gwener Tachwedd 28
Dydd Gwener Rhagfyr 12

**Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser!**

***Bike Bus: New members always welcome!***

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

Friday September 12
Friday September 26
Friday October 10

Friday November 14
Friday November 28
Friday December 12





## Diwrnodau Addysg Gorfforol / PE Days

| | |
|---|---|
| **Meithrin / Nursery** – Dydd Iau / Thursday | **3C** - Dydd Iau / Thursday |
| **Derbyn / Reception** – Dydd Llun / Monday | **4C** - Dydd Mawrth / Tuesday |
| **1C** – Dydd Mercher / Wednesday | **5C** - Dydd Mawrth / Tuesday |
| **2C** - Dydd Mercher / Wednesday | **6C** - Dydd Iau / Thursday |
| **1E** – Dydd Mawrth / Tuesday | **2E** - Dydd Iau / Thursday |

Gofynnwn i ddisgyblion ddod i'r ysgol yn eu gwisgoedd ymarfer corff ar y diwrnodau hyn, sef siorts neu 'joggers' tywyll (heb logo), crys-T yr ysgol (caniateir hefyd rhai gwyn neu glas plaen) ac esgidiau ymarfer corff.

Pupils are asked to come to school in their PE uniforms on these days: dark shorts or joggers (without logo), school T-shirts (plain white or blue T-shirts are also allowed) and trainers.

## Taflen Llais y Plentyn

Mae llais ein plant yn bwysig iawn i ni yn Ysgol Gwaelod y Garth. Wrth ddechrau cyd-destun tymhorol newydd rydym yn awyddus i gael mewnbwn eich plentyn i'n cwricwlwm. Wrth gael mewnbwn eich plentyn, a chi fel teuluoedd, rydych yn ein cynorthwyo'n fawr i gynllunio gwersi a fydd yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yr ysgol. Er na fydd modd i ni gynnwys syniadau pob plentyn yng nghynlluniau bob tymor, maent i gyd yn werthfawr.

Gofynnwn i **bob** plentyn lenwi'r daflen, sydd wedi eich cyrraedd heddiw, ac mae'n bwysig eich bod yn eistedd gyda'ch plentyn i'w gwblhau. Croeso i'ch plentyn, neu chi ar eu rhan, i dynnu llun, ysgrifennu geiriau, brawddegau neu unrhyw beth arall addas. Does dim atebion cywir nac anghywir - byddwch yn greadigol!

Gofynnwn i chi dychwelwch daflen 'Llais y Plentyn' yn ôl i'r ysgol erbyn Dydd Gwener nesa. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddarllen syniadau eich plentyn.

## Pupil Voice Ideas

The voice of every pupil is very important to us at Ysgol Gwaelod y Garth. We are eager to receive your child's input on our context for learning this term. Their input, along with your ideas as parents and guardians, will help us to plan exciting lessons which will enrich their learning experiences. Although it isn't possible for us to include every child's ideas every term, we value all ideas.

We ask **every** child to fill the leaflet, which was sent home from school today, and it is important that you sit with your child to complete the task. Your child, or you on their behalf, can draw pictures, write words or sentences or to note useful websites. There are no right or wrong answers - be creative!

Please send the completed 'Pupils Voice' leaflet back to school within the week. We are very much looking forward to reading your child's ideas.

## Neges gan y GRhA (Gymdeithas Rhieni ac Athrawon)

Bydd **Cyfarfod Blynyddol** Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ar yr **17eg o Fedi am 7:15yh** yn yr ystafell bwyllgor yng nghefn neuadd yr ysgol, a byddem wrth ein bodd yn gweld cynifer ohonoch yno ag sy'n bosibl. Bydd y pwyllgor presennol yn camu i lawr, felly rydym yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i helpu i redeg y GRhA yn y dyfodol.

Rydym yn gwybod bod pawb yn brysur, ond heb bwyllgor newydd, yn anffodus, ni fydd modd i'r GRhA barhau — a byddai hynny'n golygu colli'r holl bethau ychwanegol a'r digwyddiadau hwyliog y mae'r GRhA yn eu helpu i'w trefnu ar gyfer cymuned yr ysgol.

Os ydych erioed wedi meddwl am gymryd rhan, neu os hoffech chi glywed mwy am yr hyn sydd ynghlwm (dim pwysau!), dewch i'r cyfarfod — gall hyd yn oed cynnig bach o gymorth wneud gwahaniaeth mawr.

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth barhaus.

## A message from the PTA (Parent and Teacher Association)

Our PTA **Annual General Meeting (AGM)** is coming up on the **17th of September @ 7:15pm** at the school hall committee room and we'd love to see as many of you there as possible. The current committee will be stepping down, so we're looking for new volunteers to help run the PTA going forward.

We know everyone's busy, but without a new committee, sadly, the PTA won't be able to continue — and that would mean missing out on all the extras and fun events the PTA helps make happen for the school community.

If you've ever thought about getting involved or just want to hear more about what's involved (no pressure!), please do come along to the AGM — even small offers of help can make a big difference.

Thank you so much for your continued support.

## Clybiau ar ôl ysgol

Bydd clybiau ar ôl ysgol yn cychwyn yn ystod wythnos Medi 15 i ddisgyblion Blwyddyn 3-6. Bydd Clwb Celfyddydau Mynegiannol ar y Dydd Mercher yn wythnosol a chlwb Chwaraeon bob Dydd Iau. Ni fydd clybiau ar 14/10 a 15/10 oherwydd nosweithiau rhieni. Wythnos olaf y clybiau y tymor hwn fydd wythnos 4/12.

## After school clubs

After school clubs will begin during the week of September 15 for Year 3-6 pupils. There will be an Expressive Arts Club on Wednesdays weekly and a Sports Club every Thursday. There will be no clubs on 14/10 and 15/10 due to parents' nights. The clubs' final week this season will be week 4/12.

## Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd


Rydym yn falch iawn o allu cynnig **cwrs 'Dysgu Fel Teulu'** yn yr ysgol i deuluoedd plant yn Meithrin – Blwyddyn 2. Mae hwn o dan arweiniad Coleg Caerdydd a'r Fro. Bydd ffocws y tro hwn ar ddysgu mathemateg a'r sesiwn yn digwydd yn yr ysgol ar fore Mercher am 9am-11am a hynny am 10 wythnos. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i atodi gyda'r cylchlythyr. Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r sesiynau, rhowch wybod i swyddfa'r ysgol. Cyfle cyffrous!

## Families Learning Together

We are delighted to be able to offer the **Families Learning Together** course at the school to families of children in Meithrin – Year 2. This is lead by Cardiff and Vale College. This time, the focus will be on teaching mathematics and the session will take place at the school on Wednesday mornings at 9am-11am for 10 weeks. More information is attached with the newsletter. If you are interested in joining the sessions, please let the school office know. An exciting opportunity!

# Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro



**Enw'r Cwrs: Straeon a Thrysorau**

**Ysgol: Gwaelod y Garth**

**Dechrau: Dydd Mercher 17eg o Fedi, 9:00yb**

**Ar gyfer rhieni/gofalwyr/mamgu/tadcu plant Meithrin, Derbyn, Bl 1 a 2**




## MANYLION Y CWRS

YMUNWCH Â NI AR ANTUR DDIFYR I'R TEULU LLE MAE MATHEMATEG YN DOD YN FYW DRWY STRAEON, GEMAU A GWEITHGAREDDAU YMARFEROL!. BOB WYTHNOS, BYDDWN YN DARLLEN STORI NEWYDD SY'N TANIO CHWILFRYDEDD AC YN ARWAIN AT HERIAU MATHEMATEGOL CYFFROUS.  DEWCH YN FYFYRIWR AR Y CWRS ACHREDIG HWN - AM DDIM!
AR AGOR I BAWB: RHIENI DI-GYMRAEG, DYSGWYR A SIARADWYR RHUGL

**Cysylltwch â ni**
**families@cavc.ac.uk**

# Families Learning Together

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro



**Course name: Tales and Treasures**

**School: Gwaelod y Garth**

**Starting: Wednesday the 17th of September, 9:00am**

**For parents/carers/grandparents of children in Nursery, Reception, Year 1 and 2**

**Come along to find out more with no obligation to sign up!**


## COURSE DETAILS

JOIN US FOR A FUN-FILLED FAMILY LEARNING ADVENTURE WHERE MATHS COMES TO LIFE THROUGH STORIES, GAMES, AND HANDS-ON ACTIVITIES! EACH WEEK, FAMILIES WILL EXPLORE A NEW STORY THAT SPARKS CURIOSITY AND SETS THE STAGE FOR EXCITING, PRACTICAL CHALLENGES. BECOME A STUDENT WITH THIS FREE, ACCREDITED COURSE. OPEN TO ALL: NON-WELSH SPEAKERS, LEARNERS AND FLUENT SPEAKERS.



## Contact us

families@cavc.ac.uk


BEICIO CYMRU
#RIDELIKEG
SCAN ME
BEICIO CYMRU
Ride Like G Cardiff Cycling Programme
Fun children’s cycling sessions!
Mondays 4:30-5:30pm
15 Sept – 20 Oct 2025
Danescourt Primary School, Llandaff